Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Adroddiad ar gydymffurfiaeth â'r ddyletswydd o dan adran 1 o Fesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011

## Mehefin 2015 – Ionawr 2018

OGL © Hawlfraint y Goron 2018 WG34026 ISBN digidol 978-1-78903-453-0

## Cynnwys


Rhagair y Gweinidog ........ 3

Cyflwyniad ........ 5

Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Plentyn ........ 5

Adroddiad Cydymffurfiaeth ........ 6

Strwythur yr adroddiad ........ 6

Y Cynllun Hawliau Plant ........ 6

1. Sefydlu Hawliau Plant ........ 8

Strwythurau mewnol ........ 8

Y Gangen Blant ........ 8

Rhwydwaith Plant Mewnol ........ 9

Rhanddeiliaid allanol ........ 9

Effeithiolrwydd y Broses Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant (CRIA) ........ 11

Hyfforddiant Hawliau Plant i Staff Llywodraeth Cymru ........ 14

Hyfforddiant i ymarferwyr sy'n gweithio â phlant a phobl ifanc ........ 15

Gweithgareddau eraill i godi ymwybyddiaeth o hawliau plant ........ 16

Rôl Ymchwil a Gwerthuso: llywio ein dull o sefydlu a chodi ymwybyddiaeth o hawliau plant ........ 17

Monitor Lles Plant a Phobl Ifanc: 2015 ........ 17

Arolwg Omnibws Plant Beaufort: Cwestiynau ar Hawliau Plant ........ 18

2. Cydraddoldeb ac Anwahaniaethu ........ 23

3. Grymuso Plant ........ 26

4. Cyfranogiad ........ 28

Cymru Ifanc ........ 28

Y Cyd-destun Cenedlaethol ........ 28

Safonau Cyfranogiad Cenedlaethol Plant a Phobl Ifanc ........ 28

5. Atebolrwydd ........ 31

Y Camau nesaf ........ 32

Atodiad 1: Tueddiadau o'r Dadansoddiadau yn Arolwg Omnibws Plant Beaufort 2017 ........ 33

## Rhagair y Gweinidog

Mae'r adroddiad hwn yn gyfle i mi, ac i fy nghydweithwyr yn Llywodraeth Cymru, i fyfyrio ar sut yr ydym wedi gweithredu ar ein hymrwymiad i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn ystod y blynyddoedd diwethaf, ac yr un mor bwysig, i ystyried sut y gallwn barhau i elwa ar fuddiannau rhoi lle canolog i hawliau plant a phobl ifanc yn ein gwaith am y blynyddoedd i ddod.

Ers fy mhenodiad fel Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol ym mis Tachwedd 2017, rwyf wedi cael cyfle i ddod i wybod mwy am y gwaith ardderchog sy'n cael ei wneud gan gymaint o bobl a mudiadau ymroddedig ledled Cymru, sy'n gweithio â phlant a phobl ifanc i'w helpu i ddatblygu a chyflawni eu gwir botensial. Rwyf yn siŵr nad wyf, hyd yma, wedi gwneud mwy na chrafu'r wyneb, ac edrychaf ymlaen at ragor o gyfleoedd i ddarganfod mwy trwy siarad â phlant a phobl ifanc ac â'r oedolion sy'n gweithio â hwy.

Rwyf wedi gweld eisoes bod plant a phobl ifanc yn gallu elwa llawer trwy well dealltwriaeth o'u hawliau: bod ganddynt hwy, a phlant eraill, yr hawl i deimlo'n ddiogel a chael eu hannog a chael y cyfle i wireddu eu llawn botensial; a bod ganddynt yr hawl i godi llais i wneud yn siŵr bod eu hawliau eu hunain, a hawliau plant eraill, yn cael eu parchu.

Mewn deddfwriaeth, y ddyletswydd ar Weinidogion Cymru yw rhoi sylw dyledus i ofynion CCUHP pan fyddwn yn gweithredu ein swyddogaethau. Hoffwn symud gam ymhellach na'r geiriau ar y llyfr ystatud i feddwl am beth mae hyn yn ei feddwl yn ymarferol. Rwyf felly wedi edrych ar ein gwaith a'n hymrwymiad i CCUHP yn ystod yr ychydig flynyddoedd diweddaf gyda'r canllaw a gyhoeddwyd gan swyddfa Comisiynydd Plant Cymru: *Y Ffordd Gywir: Dull Gweithredu Seiliedig ar Hawliau Plant yng Nghymru*[1] mewn cof.

Mae *Y Ffordd Gywir* yn egluro sut y mae'r hawliau a geir yn CCUHP yn ymgorffori'r tair prif thema Cyfranogiad, Darpariaeth a Diogelu, ac mae'n cynnwys fframwaith o bum egwyddor sy'n sail i ddull gweithredu seiliedig ar hawliau plant.

[1] https://www.childcomwales.org.uk/wp-content/uploads/2017/04/Y-Ffordd-Gywir.pdf

Bu’n fuddiol i mi i edrych ar ein gwaith yng nghyd-destun y themâu hyn, a byddaf yn parhau i adolygu ein gwaith yn yr un modd i sicrhau ein bod yn rhoi ystyriaeth briodol i hawliau plant yn yr hyn rydym yn ei wneud.

Nid yw amser yn aros yn ei unfan, a gwnaethpwyd cymaint o gynnydd ers cyhoeddi fy adroddiad cydymffurfiaeth cyntaf yn 2013.  Hoffwn dalu teyrnged i fy rhagflaenwyr sydd wedi gwneud hyn yn bosibl, ac edrychaf ymlaen at y cynnydd y gallwn ei wneud yn y dyfodol.



**Huw Irranca-Davies**

Y Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol



## Cyflwyniad

### Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Plentyn

Mae Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) yn dwyn hawliau dynol plant a phobl ifanc, hyd at 18 oed, ynghyd mewn un confensiwn rhyngwladol. Mae'r 54 erthygl yn y Confensiwn yn cydnabod hawliau dynol sylfaenol plant ac yn rhoi hawliau ychwanegol iddynt i'w diogelu rhag niwed, fel un o'r grwpiau cymdeithasol sydd fwyaf agored i niwed. Mae'r CCUHP yn cynnwys nifer o feysydd ym mywyd plentyn ac mae'n disgrifio'r hawliau sifil, gwleidyddol, economaidd, cymdeithasol a diwylliannol y mae gan blant hawl i'w mwynhau. Daw'r hawliau a geir yn y Confensiwn o fewn tair thema Diogelu, Darpariaeth a Chyfranogiad. Mae ymagwedd Llywodraeth Cymru tuag at hawliau plant yn seiliedig ar ei hymrwymiad i'r CCUHP.

Ar 12 Gorffennaf 2016, cyhoeddodd Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn ei adroddiad ar gynnydd y Deyrnas Unedig i weithredu hawliau plant ers ei adroddiad diwethaf yn 2008. Roedd rhai o Arsylwadau Casgliadol y Pwyllgor wedi eu cyfeirio'n benodol at, neu roeddent yn berthnasol i Lywodraeth Cymru. Cyhoeddodd y cyn Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant ddatganiad ysgrifenedig[2] ar ymateb Llywodraeth Cymru i Arsylwadau'r Pwyllgor ar 12 Gorffennaf 2017.

Mae cynnydd wedi'i wneud ers cyhoeddi'r datganiad hwnnw. Er enghraifft, mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi ei bwriad i ganiatáu i bobl ifanc 16 a 17 oed i bleidleisio yn yr etholiadau lleol nesaf, fel rhan o'r cynigion i ddiwygio trefniadau etholiadol mewn llywodraeth leol[3]. Rydym hefyd yn ymgynghori ar ein cynnig deddfwriaethol i ddileu amddiffyniad cosb resymol[4]. Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi cadarnhau bwriad i sefydlu Senedd Ieuenctid Cymru, a chyhoeddwyd y bydd ei etholiadau cyntaf yn cael eu cynnal ym mis Tachwedd 2018.

Roedd Arsylwadau Casgliadol Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig yn delio ag ystod eang o faterion yr ydym yn dal i'w hystyried ac i roi sylw iddynt. Rydym yn cael cymorth i wneud hyn gan Grŵp Monitro Cymru'r CCUHP , sydd hefyd yn craffu ar ein gwaith, a Chynulliad Cenedlaethol Cymru a'i Bwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg.

---

[2] Mae'r datganiad ysgrifenedig i'w weld yn: http://gov.wales/about/cabinet/cabinetstatements/2017/anniversaryCCUHPobservationreport/?skip=1&lang=cy

[3] Mae datganiad llafar Ysgrifennydd y Cabinet ar gyfer Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus ar ddiwygio trefniadau etholiadol llywodraeth leol i'w weld yn: http://gov.wales/about/cabinet/cabinetstatements/2018/electoralreform/?skip=1&lang=cy

[4] Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i roi diwedd ar gosbi plant yn gorfforol trwy ddileu amddiffyniad cosb resymol yng Nghymru. Mae'r ymgynghoriad ar gynnig deddfwriaethol Llywodraeth Cymru i'w weld yn https://beta.llyw.cymru/cynnig-deddfwriaethol-i-ddileu-amddiffyniad-cosb-resymol

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod pryderon Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig ynglŷn â'r ddwy egwyddor gyffredinol anwahaniaethu a chyfranogiad plant. Trafodir yr egwyddorion hyn o dan y penawdau perthnasol isod.

## Adroddiad Cydymffurfiaeth

Mae'r adroddiad hwn yn dangos sut y mae Llywodraeth Cymru wedi cydymffurfio â dyletswydd Gweinidogion Cymru i roi sylw dyledus i ofynion CCUHP[5].

Mae hefyd yn ymdrin â pheth o'n gwaith ehangach sy'n gysylltiedig â hawliau plant, a chodi ymwybyddiaeth ohonynt y tu hwnt i gylchoedd ein sefydliad ein hunain.

Mae'r Cynllun Hawliau Plant diwygiedig[6], a gyhoeddwyd yn 2014, yn cyflwyno'r trefniadau sydd gan Weinidogion Cymru ar waith i wneud yn siŵr eu bod yn rhoi sylw dyledus i CCUHP wrth weithredu eu swyddogaethau.

Mae'r trydydd adroddiad cydymffurfiaeth hwn yn ymdrin â'r cyfnod o 1 Mehefin 2015 hyd Ionawr 2018.

## Strwythur yr adroddiad

Ym mis Mawrth 2017 cyhoeddodd Comisiynydd Plant Cymru ganllaw o'r enw *Y Ffordd Gywir: Dull Gweithredu Seiliedig ar Hawliau Plant yng Nghymru.*[7] Bwriedir i'r canllaw hwn gynnig fframwaith ymarferol, sydd wedi'i wreiddio yn CCUHP, a fydd yn gallu helpu cyrff cyhoeddus i integreiddio hawliau plant ym mhob agwedd ar brosesau penderfynu, polisïau ac arferion gweithio. I ddangos ymrwymiad Llywodraeth Cymru i hawliau plant, ac i annog cyrff cyhoeddus eraill i ddefnyddio'r fframwaith, rydym wedi llunio'r Adroddiad Cydymffurfiaeth hwn yn seiliedig ar bum egwyddor Dull Gweithredu Seiliedig ar Hawliau Plant.

## Y Cynllun Hawliau Plant

Mae'r cynllun cyfredol yn adlewyrchu'r trefniadau a oedd ar waith yn 2014 i weithredu'r Mesur. Mae wedi bod yn fframwaith gwerthfawr i waith Llywodraeth Cymru i weithredu'r ddyletswydd i roi sylw dyledus i CCUHP.

Rydym yn credu ei bod yn awr yn amser i bwyso a mesur y cynnydd a wnaethpwyd o ran hawliau plant, ac i adolygu'r Cynllun er mwyn ei ddiweddaru. Ar y cyfan, rydym yn credu y dylai Llywodraeth Cymru ganolbwyntio mwy ar ganlyniadau – y newidiadau sy'n cael eu gwneud er mwyn plant a phobl ifanc – yn hytrach nag ar allbynnau yn unig. Gellir cyfiawnhau mesur data fel lefelau gweithgarwch neu niferoedd a gyrhaeddir mewn rhai achosion, ond mae angen i ni feddwl yn ofalus beth yw diben casglu'r data hwn, ac am yr hyn a ddywed wrthym am wella canlyniadau i blant a phobl ifanc. Byddwn yn rhoi ystyriaeth lawn i hyn yn ystod y

[5] Mae'r ddyletswydd sylw dyledus wedi'i chyflwyno yn adran 1 o Fesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011. Mae'r gofyniad i gyhoeddi adroddiad cydymffurfiaeth i'w gael yn adran 4 o'r Mesur.
[6] http://gov.wales/docs/dsjlg/publications/cyp/140501-childrens-rights-scheme-2014-cy.pdf
[7] https://www.complantcymru.org.uk/wp-content/uploads/2017/04/Y-Ffordd-Gywir.pdf

misoedd nesaf, mewn ymgynghoriad â phlant a phobl ifanc, Comisiynydd Plant Cymru a grwpiau rhanddeiliaid eraill, cyn cynnig unrhyw newidiadau neu geisio cael cymeradwyaeth Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Byddwn yn ymdrechu i gwblhau'r gwaith hwn erbyn diwedd 2018.

## 1. Sefydlu Hawliau Plant

Mae hyn yn ymwneud ag integreiddio CCUHP mewn prosesau penderfynu trwy weithdrefnau a gweithredoedd.

### Strwythurau mewnol

#### Y Gangen Blant

Yn Llywodraeth Cymru, mae'r Gangen Blant yn arwain y gwaith o weithredu'r Mesur, cynnal y ddyletswydd sylw dyledus ar draws y sefydliad, ac arwain ar hybu hawliau plant o fewn a'r tu allan i Lywodraeth Cymru. Mae cyfrifoldebau'r Gangen Blant o ran hawliau plant i'w gweld ar dudalennau 19 ac 20 o'r Cynllun Hawliau Plant.[8] Hefyd, mae gan y gangen rôl gyffredinol ar draws y llywodraeth i arwain ar faterion plant, gan weithio i sicrhau bod pob plentyn a pherson ifanc yng Nghymru'n cael y cychwyn gorau posibl mewn bywyd a'u bod yn gallu cyflawni eu potensial.

Mae gwaith y gangen o ran hawliau plant yn cynnwys:

*Codi ymwybyddiaeth o hawliau plant a'r dyletswyddau yn y Mesur*

- Cynghori swyddogion Llywodraeth Cymru ar hawliau plant a dyletswyddau Gweinidogion Cymru o ran CCUHP.
- Cynnal gwefan Hawliau Plant Cymru a'r cyfrif Twitter.
- Datblygu deunyddiau i godi ymwybyddiaeth o hawliau plant, rhoi'r rhain ar wefan Hawliau Plant Cymru a darparu adnoddau am ddim i grwpiau, mudiadau ac ysgolion sy'n dymuno'u defnyddio.
- Comisiynu, cydlynu a chynorthwyo hyfforddiant: e-ddysgu ar gyfer staff Llywodraeth Cymru, hyfforddiant a ddarperir i'r gweithlu plant gan Blant yng Nghymru o dan gyllid grant gan Lywodraeth Cymru, a chontract â Phrifysgol Cymru y Drindod Dewis Sant ac Eliesha Cymru i ddatblygu a chyflwyno hyfforddiant sy'n benodol ar gyfer y sector i weithwyr proffesiynol sy'n gweithio â neu ar gyfer plant a phobl ifanc.

*Dyletswydd Gweinidogion Cymru i roi sylw dyledus i CCUHP*

- Hyrwyddo a chynghori ar y defnydd o Asesiadau o'r Effaith ar Hawliau Plant (CRIA) ar draws Llywodraeth Cymru, gan gynnwys cynigion ar gyfer asesiad effaith integredig sy'n cwmpasu CRIA.
- Cynnal a rheoli cronfa ddata a chylchlythyr CRIA.

---

[8] Ar yr adeg pan gytunwyd ar y Cynllun Hawliau Plant, roedd y tîm a oedd yn arwain ar hawliau plant yn cael ei adnabod fel Tîm Gweithredu'r Mesur. Nid yw'r cyfrifoldebau wedi newid, ond maent yn awr yn dod o fewn cylch gwaith y Gangen Blant.

*Cyfranogiad plant a phobl ifanc*

- Hybu cyfranogiad gan blant a phobl ifanc mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnynt, ar draws Llywodraeth Cymru yn benodol ond cysylltu hefyd ag awdurdodau lleol ac eraill ynglŷn â chyfranogiad ehangach.

- Rheoli grant a ddyfarnwyd i Blant yng Nghymru i sefydlu a rhedeg Cymru Ifanc, i hybu cyfranogiad ehangach gan blant a phobl ifanc ledled Cymru.

*Monitro CCUHP*

- Ystyried a monitro ymateb Llywodraeth Cymru i argymhellion Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn.

*Cysylltu â rhanddeiliaid*

- Cysylltu ac ymgynghori â mudiadau a grwpiau sy'n rhoi pwyslais ar hawliau plant, gan gynnwys Comisiynydd Plant Cymru, Plant yng Nghymru, Unicef UK, Arsyllfa Cymru ar Hawliau Dynol Plant a Phobl Ifanc a'r Rhwydwaith Cyfranogiad Gweithwyr.

**Rhwydwaith Plant Mewnol**

Ar lefel strategol, mae Rhwydwaith Plant Mewnol, sy'n cynnwys cynrychiolaeth o blith y rhai â hynny sydd â diddordeb mewn materion plant o fewn y llywodraeth, yn cwrdd yn rheolaidd i drafod materion plant, polisïau a rhaglenni, gan gynnwys hawliau plant, ac i ganfod cyfleoedd i gydweithio ar draws llywodraeth ac â rhanddeiliaid allanol. Mae hawliau plant a gweithredu'r ddyletswydd sylw dyledus yn rhan hanfodol o drafodaethau'r Rhwydwaith. Mae'r Rhwydwaith yn cwrdd yn rheolaidd ar gyfer trafodaethau o amgylch bwrdd i sicrhau cysondeb o ran polisi, ac mae wedi cael cyfres o gyflwyniadau codi ymwybyddiaeth ar bynciau sy'n cynnwys gwaith Unicef UK yng Nghymru, Canolfan Cymorth Profiadau Niweidiol mewn Plentyndod (ACE) i Gymru a CAFCASS Cymru ar wrthdaro rhwng rhieni a rhieni'n gwahanu.

**Rhanddeiliaid allanol**

Mae'r Cynllun Hawliau Plant yn cyfeirio at y Rhwydwaith Gwneud Pethau'n Iawn, sydd ag aelodaeth eang o blith ystod o randdeiliaid. Mae'r rhwydwaith wedi chwarae rôl allweddol trwy gynghori ar y Rhaglen Plant a Phobl Ifanc, a oedd wedi llunio cynllun gweithredu i'r llywodraeth ar gyfer plant a phobl ifanc yn nhymor diwethaf y Cynulliad, ac y cyfeiriwyd ato gan Bwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn ei Arsylwadau Casgliadol.[9]


[9]Nid yw Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi Rhaglen Plant a Phobl Ifanc ar wahân ar gyfer y tymor hwn o'r Cynulliad. Rydym yn credu bod ein rhaglen plant a phobl ifanc yn rhan hanfodol o Strategaeth Genedlaethol Llywodraeth Cymru: Ffyniant i Bawb, ac nad oes angen cynrychiolaeth ar wahân arni.


Mae’r Rhwydwaith Gwneud Pethau’n Iawn wedi cael ei ddisodli gan y Grŵp Cynghorol ar Hawliau Plant (CRAG), a sefydlwyd i roi cyngor ac arbenigedd ar faterion plant i brif swyddogion Llywodraeth Cymru ar hawliau plant. Mae ganddo aelodaeth sefydlog sy’n cynnwys cynrychiolaeth o Lywodraeth Cymru, swyddfa Comisiynydd Plant Cymru, Plant yng Nghymru, Unicef UK, Arsyllfa Cymru ar Hawliau Dynol Plant a Phobl Ifanc, gyda’r opsiwn i droi at eraill i gael cyngor neu arbenigedd ar bolisïau, deddfwriaeth neu CRIA. Cafodd cylch gorchwyl CRAG ei adolygu a chafwyd cytundeb arno ym mis Rhagfyr 2017, ac mae cyfarfodydd i hwyluso rôl gynghorol CRAG wedi’u trefnu ar gyfer 2018.

**Effeithiolrwydd y Broses Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant (CRIA)**
Mae'r CRIA yn rhan o weithdrefnau Llywodraeth Cymru i sicrhau bod sylw dyledus yn cael ei roi i hawliau plant pan fydd polisïau, rhaglenni neu ddeddfwriaeth yn cael eu datblygu.

Yn ystod cyfnod yr adroddiad hwn, cafodd 66 CRIA eu cwblhau. Nid oes modd rhoi dadansoddiad manwl fesul adran o'r CRIA a gwblhawyd yn ystod y cyfnod, gan fod strwythur a chyfansoddiad adrannau wedi newid yn ystod y cyfnod dan sylw. Felly, mae'r data'n cael ei gyflwyno fesul adran mewn dau siart gwahanol: mae'r cyntaf o'r rhain yn cyfeirio at y cyfnod o Fai 2012 (h.y. cyn dechrau cyfnod yr adroddiad hwn) hyd Ebrill 2016; mae'r ail yn cyfeirio at y cyfnod o Fai 2016 hyd ddiwedd Ionawr 2018.

**Siart 1: Nifer yr Asesiadau (CRIA) a gwblhawyd gan Adrannau Llywodraeth Cymru, Mai 2012-Ebrill 2016**






Mae'r CRIA yn awr yn rhan hanfodol o broses llunio polisïau Llywodraeth Cymru. Mae gwybodaeth am y broses CRIA, a'n cylchlythyr CRIA, yn cael eu cyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru yn http://gov.wales/topics/people-and-communities/people/children-and-young-people/rights/childrens-rights-impact-assessments/?skip=1&lang=cy.

Yn 2015, cynhaliwyd gwerthusiad o weithdrefn CRIA Llywodraeth Cymru, gydag adroddiad terfynol wedi'i gyhoeddi ym mis Tachwedd 2015[10]. Roedd yr adroddiad yn gwneud nifer o argymhellion, ac mae CRIA wedi'i symleiddio wedi cael ei dreialu mewn ymateb i'r argymhellion. Rydym yn casglu sylwadau ar y derbyniad a gafodd y CRIA symlach, a byddwn yn cadw hyn mewn cof wrth i ni ystyried sut y gellid

[10] Hoffman, S a Morse, C(2015), Evaluation of the Welsh Government's Child Rights Impact Assessment Procedure under the Children's Rights Scheme pursuant to the Rights of Children and Young Persons (Wales) Measure 2011. Abertawe: Arsyllfa Cymru ar Hawliau Dynol Plant a Phobl Ifanc https://cronfa.swan.ac.uk/Record/cronfa30963

ymgorffori'r CRIA mewn asesiad effaith integredig (gweler isod am ragor ar y cynnig ar gyfer asesiad effaith integredig).

Ym mis Medi 2017, cyhoeddodd Unicef UK bapur briffio ar *Strengthening Child Rights Impact Assessment in Wales*[11]. Roedd hwn yn cyfeirio at Werthusiad 2015, a gwnaeth yntau hefyd nifer o argymhellion.

Mae Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg y Cynulliad Cenedlaethol[12] a'r Pwyllgor Craffu ar Waith y Prif Weinidog[13] wedi craffu ar ymagwedd Llywodraeth Cymru tuag at Hawliau Plant yn ystod y misoedd diwethaf, gyda phwyslais penodol ar effeithiolrwydd y broses CRIA o fewn Llywodraeth Cymru.

Prif nodweddion ein hymagwedd at y broses CRIA yw:

- Argaeledd hyfforddiant ar CCUHP a phroses CRIA i'r holl staff, gyda staff yn cael eu hatgoffa'n rheolaidd o'r angen i gael hyfforddiant, trwy fwletinau ar dudalennau newyddion staff ac ymgyrchoedd ar ffurf posteri.
- Argaeledd cyngor ar y broses CRIA gan swyddogion sy'n cynghori ar hawliau plant yn y Gangen Blant; a
- Bod yn agored a thryloyw: mae CRIAu naill ai'n cael eu cyhoeddi'n rheolaidd (er enghraifft gyda'r memorandwm esboniadol ar gyfer deddfwriaeth), neu maent yn cael eu rhestru mewn cylchlythyr rheolaidd sydd ar gael ar gais.

Am enghreifftiau o CRIA diweddar a'r effaith a gawsant ar ddatblygiad polisi, gweler ymateb y Prif Weinidog i ymholiadau ychwanegol a godwyd gan y Pwyllgor Craffu ar Waith y Prif Weinidog[14].

Ein gweledigaeth wrth lunio polisïau Llywodraeth Cymru yw bod pob effaith bosibl, gan gynnwys rhai ar hawliau plant a phobl ifanc, yn cael eu nodi ac yn cael eu hystyried mor gynnar â phosibl, a'u bod yn cael eu hadolygu'n rheolaidd ar ôl i'r polisi hwnnw gael ei ddatblygu. Mae swyddogion, felly, wedi bod yn gweithio ar asesiad effaith integredig, a fydd yn annog ystyriaeth gynnar a pharhaus i bob effaith bosibl, gan gynnwys ystyriaeth fanwl y dylid ei rhoi i'r asesiad o'r effaith ar hawliau plant, a lliniaru unrhyw effeithiau andwyol posibl. Mae'r argymhellion yng

[11] https://www.unicef.org.uk/wp-content/uploads/2017/09/Unicef-UK-Briefing_Child-Rights-Impact-Assessment_Wales_September-2017.pdf

[12] Roedd llythyr Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Gweinidog Plant a Gwasanaethau Cymdeithasol at Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg dyddiedig 1 Rhagfyr yn trafod sefyllfaoedd pan fyddai CRIA neu asesiad effaith integredig yn cael eu cynnal. Mae copi o'r llythyr i'w weld yma http://www.senedd.cynulliad.cymru/ieListDocuments.aspx?CId=443&MId=4320&Ver=4

[13] Cynhaliodd Pwyllgor Craffu ar Waith y Prif Weinidog sesiwn Graffu Weinidogol ar hawliau plant a phobl ifanc ar 27 Hydref 2017. Mae trawsgrifiad o'r sesiwn i'w weld yma: http://senedd.assembly.wales/documents/s68146/27%20October%202017.html?CT=2

[14] Mae ymateb y Prif Weinidog i ymholiadau ychwanegol a godwyd gan y Pwyllgor Craffu ar Waith y Prif Weinidog i'w weld yma: http://www.senedd.cynulliad.cymru/ieListDocuments.aspx?CId=450&MId=4925&Ver=4

ngwerthusiad 2015 o CIRA a phapur briffio Unicef UK yn cael eu hystyried fel rhan o'r broses o ddatblygu'r broses asesiad effaith integredig.

**Hyfforddiant Hawliau Plant i Staff Llywodraeth Cymru**

Mae hyfforddiant ar-lein ar hawliau plant ar gael i holl staff Llywodraeth Cymru, ac mae'n cael ei hysbysu'n rheolaidd i staff ar dudalennau newyddion staff a thrwy ymgyrchoedd posteri. Mae'r Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol wedi cytuno ar gyllid yn ddiweddar i ddiweddaru'r hyfforddiant, ac i sicrhau ei fod yn cyrraedd safonau hygyrchedd cyfredol.

Yn ystod y cyfnod sydd wedi'i gynnwys yn yr adroddiad hwn (1 Mehefin 2015 – 23 Ionawr 2018), roedd 648 o aelodau staff wedi cwblhau'r hyfforddiant ar-lein. Mae Tabl 1 isod, yn dangos dadansoddiad o niferoedd y staff sydd wedi cwblhau'r hyfforddiant fesul adran Llywodraeth Cymru.

**Tabl 1: Niferoedd staff Llywodraeth Cymru sydd wedi cwblhau hyfforddiant hawliau plant ar-lein fesul adran**

| Adran | Nifer |
|---|---|
| Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus | 155 |
| Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol | 329 |
| Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol | 68 |
| Swyddfa'r Prif Weinidog a Swyddfa'r Cabinet | 96 |
| **CYFANSWM** | **648** |

Mae'r nifer hwn yn sylweddol is na'r 1,049 aelod o staff a oedd wedi cwblhau'r hyfforddiant ym mlwyddyn olaf y cyfnod sydd wedi'i gynnwys yn Adroddiad Cydymffurfiaeth 2015. Ni allwn ddweud yn bendant pam fod y niferoedd sydd wedi cwblhau'r hyfforddiant wedi gostwng, er y byddai'n rhesymol i ddisgwyl gweld niferoedd is, ar ôl i garfan graidd o staff sy'n gysylltiedig â datblygiad polisïau a deddfwriaeth gwblhau'r hyfforddiant.

Y nod allweddol, i'r graddau posibl, yw sicrhau bod swyddogion sy'n gysylltiedig â datblygu polisïau, rhaglenni a deddfwriaeth yn ddigon ymwybodol o ymrwymiad Llywodraeth Cymru i hawliau plant a'r angen i'w hystyried yng nghamau cynnar datblygiad polisïau. Yn aml, bydd swyddogion yn dod yn ymwybodol o hyn trwy gysylltiad uniongyrchol â swyddogion y Gangen Blant yn ogystal â thrwy hyfforddiant ar-lein; fodd bynnag, byddwn yn ystyried y mater ymhellach yn ystod y chwech i naw mis nesaf, wrth i ni ddiweddaru'r hyfforddiant ar-lein i'w wneud yn fwy hygyrch.

Bydd diweddaru'r hyfforddiant, ynghyd â'r gwaith ar asesiad effaith integredig, yn cynnig cyfleoedd ychwanegol i annog staff i gwblhau'r hyfforddiant, os nad ydynt wedi gwneud hynny eisoes, neu i gael hyfforddiant diweddaru os oes angen.

## Hyfforddiant i ymarferwyr sy'n gweithio â phlant a phobl ifanc

Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi hyfforddiant i ymarferwyr trwy gontract a ddyfarnwyd i Brifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant ac Eliesha Cymru i ddatblygu hyfforddiant sy'n benodol i'r sector, a thrwy gyllid a ddarperir i Blant yng Nghymru.

*Contract hyfforddiant penodol i'r sector*

Mae hwn yn gontract i ddatblygu a chyflwyno hyfforddiant penodol i'r sector am gyfnod o dair blynedd o fis Hydref 2015 i fis Hydref 2018.

Nod y prosiect yw cyflawni'r canlyniadau canlynol:

- cynyddu ymwybyddiaeth o CCUHP a hawliau plant yng Nghymru;
- cynyddu dealltwriaeth o sut y mae'r sectorau yn effeithio ar hawliau plant; a
- galluogi'r sectorau i sylweddoli eu pwysigrwydd i alluogi plant a phobl ifanc i weithredu eu hawliau ac wedyn i gymryd perchnogaeth ac integreiddio'r hyfforddiant wrth gynllunio'u gweithlu eu hunain.

Ym mlynyddoedd 1 a 2 o'r contract, cafodd hyfforddiant ei ddatblygu a'i gyflwyno i ymarferwyr yn y sectorau addysg, gofal plant, gofal cymdeithasol, yr heddlu, cyfiawnder ieuenctid ac awdurdodau lleol. Ym mlwyddyn 3, y sectorau targed yw chwaraeon, iechyd a'r cyfryngau.

Cafodd 310 o ymarferwyr hyfforddiant ym mlwyddyn 1, a 238 ym mlwyddyn 2. Disgrifiwyd yr hyfforddiant fel da, da iawn neu ardderchog gan 99% o ymarferwyr ym mlwyddyn 1, a chan 100% ym mlwyddyn 2.

Yn ystod y chwe mis nesaf, byddwn yn ystyried a oes angen o hyd am hyfforddiant sy'n benodol i'r sector, gan gadw mewn cof ei gyrhaeddiad a'r effaith bosibl ar yr ymwybyddiaeth o hawliau plant, ac yn y diwedd ar ganlyniadau positif i blant a phobl ifanc.

*Plant yng Nghymru*

Mae Llywodraeth Cymru yn rhoi cyllid grant i Blant yng Nghymru i nifer o ddibenion, gan gynnwys darparu sesiynau dysgu a hyfforddi i ystod eang o weithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda, ac ar gyfer plant a phobl ifanc, ar CCUHP, hawliau cyfranogi plant a dulliau cyfranogi. Gan ddefnyddio'r arian hwn, mae Plant yng Nghymru yn datblygu ac yn cyflwyno wyth cyfle yn y flwyddyn i gael hyfforddiant. Yn 2016-17, er enghraifft, cyflwynwyd 8 sesiwn hyfforddi yn y Rhyl, Wrecsam, Caerdydd, Abertawe a Chastell-nedd, gan gyrraedd 160 o weithwyr proffesiynol sy'n gweithio â phlant a phobl ifanc.

## Gweithgareddau eraill i godi ymwybyddiaeth o hawliau plant

Byddwn hefyd yn codi ymwybyddiaeth o hawliau plant trwy gyfrwng y canlynol:

- Ystod o adnoddau a ddatblygwyd gennym i egluro hawliau plant – mae’r rhain ar gael yn ddi-dâl ar gais i fudiadau sy’n dymuno’u defnyddio i godi ymwybyddiaeth ymhlith plant a phobl ifanc, eu teuluoedd a’r rhai sy’n gweithio â hwy;
- Gwefan Hawliau Plant sy’n cynnwys gwybodaeth am hawliau plant, gan gynnwys ein hystod o adnoddau;
- Cyfrif Twitter Hawliau Plant;
- Presenoldeb mewn digwyddiadau i ddosbarthu adnoddau ac i godi ymwybyddiaeth o hawliau plant.

Yn 2017, cytunodd llysgennad Unicef Michael Sheen i gefnogi ein gwaith ar hyrwyddo hawliau plant.

Byddwn yn adolygu ein strategaeth i godi ymwybyddiaeth o hawliau plant yn ystod y flwyddyn nesaf, a bydd hynny’n cynnwys cysylltu â mudiadau eraill sydd â rôl i godi ymwybyddiaeth o hawliau plant, i sicrhau bod ein gwaith yn ategu eu gwaith hwy, ac nid yn ei ddyblygu.

## Rôl Ymchwil a Gwerthuso: llywio ein dull o sefydlu a chodi ymwybyddiaeth o hawliau plant

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod y rôl bwysig sydd wedi'i chwarae gan ymchwil a gwerthuso i ategu ein gwaith o weithredu dull Hawliau Plant. Mae'r adran hon o'r adroddiad yn cynnwys gwybodaeth am Fonitor Iechyd a Lles Plant a Phobl Ifanc 2015 a dadansoddiad o'r canfyddiadau o gwestiynau a oedd wedi'u cynnwys yn Arolwg Omnibws Plant Beaufort ar hawliau plant.

### Monitor Lles Plant a Phobl Ifanc: 2015

Cafodd yr argraffiad diweddaraf o'r Monitor Lles Plant a Phobl Ifanc diweddaraf[15] ei gyhoeddi fis Rhagfyr 2015. Mae'r Monitor yn cael ei gyhoeddi fel adroddiad Ymchwil Gymdeithasol y Llywodraeth, ac mae'n cynnwys cyfraniadau gan ymchwilwyr cymdeithasol, ystadegwyr, economegwyr a swyddogion polisi Llywodraeth Cymru. Nod y gyfres yw cyflwyno darlun aml ddimensiwn o lesiant plant a phobl ifanc (0 i 25 oed) yng Nghymru, gan ddefnyddio amrywiaeth o ddangosyddion llesiant a ffynonellau ystadegol ac ymchwil eraill. Mae'n adnodd allweddol i'r sawl sy'n gweithio ar ddatblygiad polisïau a rhaglenni.

Mae argraffiadau blaenorol wedi gweithredu fel cyd-destun defnyddiol i lunio polisïau sy'n gysylltiedig â phlant a phobl ifanc, fel tlodi plant a hawliau plant, ac maent wedi helpu gwaith i fesur llesiant plant a phobl ifanc. Mae'r gyfres hefyd wedi bod yn fodd i dynnu sylw'r gymuned ymchwil ehangach at wybodaeth sydd ar goll ar y pryd. Hefyd, mae'r gyfres wedi cael ei defnyddio gan nifer o Awdurdodau Lleol / Byrddau Gwasanaeth Lleol ar gyfer eu Cynlluniau Integredig Sengl ac i ddadansoddi canlyniadau, a chan wledydd Ewropeaidd eraill sy'n datblygu eu systemau o ddangosyddion eu hunain.

Nod argraffiad 2015 oedd cynhyrchu fersiwn wedi'i ddiweddaru o Fonitor 2011. Roedd yr argraffiad newydd yn cynnwys adrannau cyflwyniad a chasgliadau newydd ar ddatblygiadau polisi diweddar, gwelliannau yn y mesur o lesiant plant a chymariaethau rhyngwladol.

O ran y prif ganfyddiadau ar gyfranogiad plant a phobl ifanc mewn prosesau penderfynu, mae prinder data sy'n benodol Gymreig ar gael ar farn plant a phobl ifanc ar gyfranogiad mewn prosesau pender

Mae ffigurau o Arolwg Ymddygiad Iechyd mewn Plant Oedran Ysgol 2013/2014[16] yn awgrymu bod 69.9% o blant blwyddyn saith (11 i 12 oed) yn teimlo bod eu syniadau'n cael eu cymryd o ddifri. Fodd bynnag, erbyn Blwyddyn 11 (15 i 16 oed) mae'r ffigur wedi gostwng i 39.5%. Mae'r canfyddiadau hyn yn awgrymu bod

[15] http://gov.wales/statistics-and-research/children-young-peoples-wellbeing-monitor-wales/?lang=cy
[16] Mae'r Arolwg Ymddygiad Iechyd mewn Plant Oedran Ysgol (HBSC) yn arolwg rhyngwladol o blant mewn ysgolion uwchradd (10 i 13 oed). Yng Nghymru, mae maint sampl yr arolwg yn 9,055 o ddisgyblion.

disgyblion yn teimlo bod ganddynt lai o reolaeth dros y tasgau maent yn eu cwblhau a dros y prosesau penderfynu yn eu hysgol wrth iddynt fynd yn hŷn.

**Arolwg Omnibws Plant Beaufort: Cwestiynau ar Hawliau Plant**

Mae Llywodraeth Cymru wedi cynnwys pedwar cwestiwn ar hawliau plant yn Arolwg Omnibws Plant Beaufort, sy'n edrych ar y blynyddoedd 2015 i 2017. Mae'r arolwg wedi'i lunio i fod yn gynrychioliadol o'r boblogaeth plant a phobl ifanc sy'n byw yng Nghymru, yn y grŵp oedran 7-18. Mae'r arolwg hefyd yn defnyddio pwyntiau samplo i sicrhau cwmpas daearyddol sy'n gymharol gynrychioliadol o Gymru gyfan, pob rhanbarth ac sy'n cynnwys cymysgedd o ardaloedd trefol a gwledig.

Mae canfyddiadau'r arolwg yn arwydd defnyddiol o dueddiadau yn ymwybyddiaeth plant o'u hawliau yn ystod y tair blynedd dan sylw, ond nid ydynt yn ymdrechu i egluro'r rhesymau am unrhyw dueddiadau a nodwyd.

Mae Tablau 2 i 5 sy'n cyflwyno'r data ar gyfer 2015 – 2017 ar lefel genedlaethol wedi'u cynnwys isod. Mae crynodeb o dueddiadau o Arolwg Omnibws Beaufort diweddaraf 2017, sy'n defnyddio'r dadansoddiadau gyfer y rhanbarthau, cefndir economaidd gymdeithasol ac oedran wedi'u cyflwyno yn Atodiad 1 (tablau 6 i 9).

***Ymwybyddiaeth plant a phobl ifanc o hawliau plant***

Gofynnwyd i blant a phobl ifanc a oeddent yn ymwybodol bod gan blant hyd at 18 oed hawliau penodol, yn ychwanegol at y rhai sydd gan oedolion. Er mai data ar gyfer tair blynedd yn unig sydd gennym, mae'r ffigurau a gyflwynir yn Nhabl 2 wedi aros yn weddol debyg, gyda gostyngiad bychan o 61% o blant a phobl ifanc a oedd yn dweud eu bod yn ymwybodol o hawliau plant i 58% yn 2017.

**Tabl 2: Ymwybyddiaeth plant a phobl ifanc o hawliau plant**

| | 2015 | 2016 | 2017 |
|---|---|---|---|
| Ydw | 61% | 57% | 58% |
| Nac ydw | 38% | 41% | 40% |
| Ddim yn gwybod | 2% | 2% | 1% |
| Gwaelodlin | 500 | 507 | 530 |

Ffynhonnell: Arolwg Omnibws Plant Beaufort 2015-2017, cwestiwn 'A wyddoch chi fod gan blant hyd at 18 oed hawliau penodol, yn ychwanegol at y rhai sydd gan oedolion? Wrth sôn am hawliau, rydym yn golygu cael eich trin yn deg, gyda pharch a'r cyfle i gyflawni'r hyn rydych am ei gyflawni'

***Ymwybyddiaeth plant a phobl ifanc o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Dynol y Plentyn a ble maent yn cael gafael ar wybodaeth am y Confensiwn***

Mae Tabl 3 yn dangos cynnydd bychan yng nghanran y plant a phobl ifanc sy'n dweud eu bod wedi clywed am CCUHP. Yn 2017 a 2016, mae mwy nag un o bob pump wedi clywed am CCUHP (22%), cynnydd o 12% yn 2015. O blith y grŵp o blant a phobl ifanc sy'n ymwybodol o CCUHP, y duedd yw bod y rhan fwyaf yn ymwybodol trwy wybodaeth a gawsant yn yr ysgol neu brifysgol.

**Tabl 3: Ymwybyddiaeth plant a phobl ifanc o *Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Dynol y Plentyn a ble maent yn cael gafael ar wybodaeth am y Confensiwn***

| | 2015 | 2016 | 2017 |
|---|---|---|---|
| Yn yr ysgol / prifysgol | 12% | 20% | 20% |
| Ar y rhyngrwyd | 3% | 1% | 2% |
| Trwy ddarllen taflen | 1% | - | 1% |
| Gartref | - | - | 1% |
| Arall | 0% | 5% | - |
| Wedi clywed am CCUHP | 16% | 22% | 22% |
| Naddo – erioed wedi clywed am CCUHP cyn heddiw | 84% | 77% | 77% |
| Ddim yn gwybod | 0% | 0% | 1% |
| Gwaelodlin | 500 | 507 | 530 |

Ffynhonnell: Arolwg Omnibws Plant Beaufort 2015-2017, cwestiwn 'Mae gan y Cenhedloedd Unedig restr o'r holl hawliau sydd gan blant a phobl ifanc. Gelwir y rhestr yn CCUHP. Cyn heddiw, a oeddech chi wedi gweld neu glywed rhywbeth am CCUHP mewn unrhyw rai o'r mannau canlynol?

***I ba raddau mae plant a phobl ifanc yn cytuno â'r datganiad: Mae oedolion fel arfer yn gwrando ar farn plant a phobl ifanc cyn gwneud penderfyniadau sy'n effeithio arnynt***

Bu gostyngiad bychan yng nghanran y plant a phobl ifanc sy'n dweud bod oedolion yn gwrando arnynt cyn gwneud penderfyniadau pwysig sy'n effeithio arnynt, yn ystod 2015 i 2017. Yn 2015, roedd 74% o blant a phobl ifanc yn teimlo eu bod yn cael eu clywed, ac roedd hynny wedi gostwng i 71% yn 2016 ac yn 2017. Fodd bynnag, gwelwyd cynnydd bychan yn 2017 yng nghanran y plant a ddywedodd eu bod yn 'cytuno'n gryf' eu bod yn cael eu clywed (32%), i fyny o 28% yn 2015 ac yn 2016.

**Tabl 4: I ba raddau mae plant a phobl ifanc yn cytuno â'r datganiad: Mae oedolion fel arfer yn gwrando ar farn plant a phobl ifanc cyn gwneud penderfyniadau sy'n effeithio arnynt**

| | 2015 | 2016 | 2017 |
|---|---|---|---|
| Cytuno'n gryf | 28% | 28% | 32% |
| Cytuno ychydig | 46% | 43% | 39% |
| Anghytuno ychydig | 15% | 17% | 17% |
| Anghytuno'n gryf | 8% | 10% | 7% |
| Ddim yn gwybod | 4% | 2% | 5% |
| Gwaelodlin | 500 | 507 | 530 |

Ffynhonnell: Arolwg Omnibws Plant Beaufort 2015-2017, cwestiwn 'I ba raddau ydych chi'n cytuno â'r datganiad: mae oedolion fel arfer yn gwrando ar farn plant a phobl ifanc cyn gwneud penderfyniadau sy'n effeithio arnynt?'

***Â phwy fyddai plant a phobl ifanc yn ddweud y byddent yn siarad os oeddent yn teimlo nad oedd oedolion yn gwrando ar eu barn cyn gwneud penderfyniadau pwysig sy'n effeithio arnynt***

Mae Tabl 5 yn dangos y byddai'r rhan fwyaf o blant a phobl ifanc yng Nghymru yn dweud y byddent yn siarad â'u rhieni os oeddent yn teimlo nad oedd oedolion yn gwrando arnynt cyn gwneud penderfyniadau pwysig a oedd yn effeithio arnynt. Fodd bynnag, bu gostyngiad sylweddol o 90% o blant a phobl ifanc a ddywedodd y byddent yn siarad â'u rhieni yn 2016 ac yn 2015 i 60% yn 2017. Yn ystod y cyfnod hwn bu cynnydd amlwg yng nghanran y plant a phobl ifanc a ddywedodd y byddent yn siarad â'u ffrindiau (22% yn 2017, o 2% yn 2015).

**Tabl 5: Â phwy fyddai plant a phobl ifanc yn ddweud y byddent yn siarad os oeddent yn teimlo nad oedd oedolion yn gwrando ar eu barn cyn gwneud penderfyniadau pwysig sy'n effeithio arnynt**

| | 2015 | 2016 | 2017 |
|---|---|---|---|
| Rhieni | 90% | 90% | 60% |
| Ffrindiau (gan gynnwys cariadon) | 2% | 4% | 22% |
| Athro / Cyngor ysgol | 16% | 14% | 15% |
| Perthnasau eraill | 11% | 9% | 7% |
| Nain / taid | 15% | 13% | 3% |
| Childline | | 1% | 1% |
| Gweithiwr ieuenctid | 2% | 0% | 1% |
| Cwnselydd / gweithiwr cymdeithasol | 2% | 0% | 1% |
| Comisiynydd Plant Cymru | 1% | - | - |
| Negesfwrdd neu fforwm ar-lein | 1% | - | - |
| Arall | 1% | 1% | 1% |
| Dim un o'r rhain | 2% | 2% | - |
| Ddim yn gwybod | 0% | - | 4% |

Ffynhonnell: Arolwg Omnibws Plant Beaufort 2015-2017, cwestiwn 'â phwy fyddech chi'n siarad os byddai angen i chi siarad ag oedolyn am rywbeth oedd yn bwysig i chi?'

Yn gyffredinol, felly, mae canlyniadau ymchwil Beaufort yn dangos bod ymwybyddiaeth plant a phobl ifanc o hawliau plant ac o CCUHP wedi bod yn weddol debyg yn ystod y tair blynedd diwethaf.

Y camau nesaf i ni’n awr yw ystyried:

- Pa ymchwil cymdeithasol pellach sydd ei angen i asesu lefelau’r ymwybyddiaeth, fel y gallwn fynd at wraidd y cwestiynau am hawliau plant a deall beth sy’n gwneud hawliau plant yn bwnc “byw” i blant a phobl ifanc?

- Sut allwn ni weithio ag eraill sydd hefyd yn hyrwyddo ac yn codi ymwybyddiaeth o hawliau plant, gan gynnwys Comisiynydd Plant Cymru, Plant yng Nghymru Arsyllfa Cymru ar Hawliau Plant a Phobl Ifanc ac Unicef UK, i gael mwy o effaith ar lefelau ymwybyddiaeth.

- Y berthynas rhwng ymwybyddiaeth o hawliau plant a gwella canlyniadau i blant a phobl ifanc, trwy roi’r cychwyn gorau mewn bywyd iddynt a’u galluogi i gyrraedd eu llawn botensial.

## 2. Cydraddoldeb ac Anwahaniaethu

Mae hyn yn golygu sicrhau bod gan bob plentyn gyfle cyfartal i wneud y gorau o'u bywydau a'u talentau, ac nad oes yn rhaid i unrhyw blentyn oddef cyfleoedd bywyd gwael oherwydd gwahaniaethu.

Mae CCUHP yn cydnabod bod plant a phobl ifanc yn grŵp cymdeithasol agored i niwed ac mae'n cynnwys cyfres o Erthyglau sy'n ymwneud ag amddiffyn eu hawliau. Mae CCUHP yn ei gwneud yn ddyletswydd ar lywodraethau i amddiffyn plant a phobl ifanc ac i ddarparu gwasanaethau adsefydlu ar eu cyfer, os oes angen. Mae hyn yn cynnwys eu hamddiffyn rhag: cam-fanteisio ar blant a phobl ifanc mewn gwaith; camdriniaeth corfforol, rhywiol a seicolegol; a gwahaniaethu a thriniaethau eraill.

Un o agweddau allweddol Llywodraeth Cymru wrth weithredu'r ddyletswydd sylw dyledus yw sicrhau bod plant a phobl ifanc mwyaf agored i niwed Cymru'n cael eu hawliau. Mae'r ymrwymiad hwn wedi'i gyflwyno yn Ffyniant i Bawb, gyda'r blynyddoedd cynnar fel blaenoriaeth drawsbynciol yn y strategaeth. Gweledigaeth Llywodraeth Cymru yw bod plant o bob cefndir yn cael y dechrau gorau mewn bywyd.

Rydym yn rhannu uchelgais Comisiynydd Plant Cymru, a ddisgrifir yn y canllaw 'Y Ffordd Gywir', bod pob plentyn yn cael y cyfle i gyrraedd eu llawn botensial. Mae hyn yn ganolog i strategaeth Uchelgais a Dysgu Llywodraeth Cymru, sydd am weld addysg yn sylfaen i oes o ddysgu a chyflawni. Mae ein huchelgais sylfaenol o greu ffyniant i bawb wedi'i seilio ar leihau anghydraddoldeb. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ddarparu cymorth i bob plentyn, yn enwedig rhai o gefndiroedd difreintiedig, er mwyn torri cylch tlodi.

Mae'r ymrwymiad hwn hefyd i'w weld ym mlaenoriaeth drawsbynciol tai sy'n cydnabod bod tai o ansawdd da'n galluogi unigolion a theuluoedd i ffynnu. Mae tystiolaeth sy'n dangos cysylltiadau rhwng cartrefi oer a llaith a chlefydau anadlol ac asthma. Gall y problemau iechyd hyn gyfrannau at Brofiadau Niweidiol mewn Plentyndod ac maent yn cael effaith negyddol ar ddysg plant.

**Rhai enghreifftiau o bolisïau, rhaglenni a deddfwriaeth neu gynigion deddfwriaethol Llywodraeth Cymru i hybu cydraddoldeb neu leihau gwahaniaethau**

***Cynllun Gweithredu Trawsryweddol***

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i fwrw ymlaen â chamau i fynd i'r afael â gwahaniaethu, gwella mynediad at wasanaethau cyhoeddus a mynd i'r afael â stigma cymdeithasol, aflonyddu a bwlio yn achos pobl drawsryweddol yng Nghymru. Cafodd Cynllun Gweithredu i Wella Cydraddoldeb ar gyfer Pobl Drawsryweddol[17] ei gyhoeddi gan Lywodraeth Cymru ym mis Mawrth 2016 ac mae'n cyflwyno enghreifftiau positif i wella cydraddoldeb i bobl drawsryweddol. Bu Llywodraeth Cymru yn ymgynghori'n uniongyrchol â phobl ifanc drawsryweddol i ddatblygu'r cynllun gweithredu ac mae wedi cynhyrchu crynodeb ohono'n benodol ar gyfer plant a phobl ifanc[18].

***Traws*Newid Cymru***

Mae Llywodraeth Cymru wedi darparu cyllid grant Cydraddoldeb a Chynhwysiant (2014 – 17) i brosiect Traws*Newid Cymru Youth Cymru. Mae'r prosiect wedi grymuso a chynorthwyo pobl drawsryweddol i weithredu eu hawliau, ac wedi cynnig cymorth i fudiadau sy'n gweithio â phobl ifanc i roi sylw i'r gwahaniaethu a'r allgau sy'n aml yn cael ei brofi gan bobl drawsryweddol. Cafodd y gwaith ei arwain gan grŵp llywio o bobl ifanc sy'n cyfrif eu hunain ar y sbectrwm drawsryweddol.

Mae Trans*Newid Cymru wedi cynhyrchu pecyn cymorth[19] sy'n cynnwys arweiniad i fudiadau gwaith ieuenctid ac amrywiaeth o adnoddau i'w defnyddio â phobl ifanc i hyrwyddo ymwybyddiaeth o gydraddoldeb ac amrywiaeth.

***Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018***

Cafodd y Ddeddf hon Gydsyniad Brenhinol ar 24 Ionawr, ac mae'n gonglfaen Rhaglen Trawsnewid Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) Llywodraeth Cymru. Bydd yn trawsnewid y systemau ar wahân ar gyfer anghenion addysgol arbennig (AAA) mewn ysgolion ac anawsterau a / neu anableddau dysgu (AAD) mewn addysg bellach, i greu system unedig i helpu dysgwyr 0 i 25 ag ADY.

Bydd y system wedi'i thrawsnewid yn:

- sicrhau bod pob dysgwr ag ADY yn cael cymorth i oresgyn rhwystrau rhag dysgu ac i gyflawni eu llawn botensial
- gwella sut mae cymorth yn cael ei gynllunio a'i ddarparu i ddysgwyr 0 i 25 oed

[17] http://gov.wales/docs/dsjlg/publications/equality/160314-transRhyw-action-plan-cy.pdf
[18] http://gov.wales/docs/dsjlg/publications/equality/160314-transRhyw-action-plan-youth-cy.pdf

[19] http://youthcymru.org.uk/transform-cymru/ (Saesneg) a http://youthcymru.org.uk/cy/trawsnewid-cymru/ (Cymraeg)

ag ADY, gan roi anghenion, barn, dymuniadau a theimladau dysgwyr wrth galon y broses
- pwysleisio pwysigrwydd canfod anghenion yn gynnar a rhoi ymyriadau amserol ac effeithiol ar waith sy'n cael eu monitro a'u haddasu i sicrhau eu bod yn cyflawni'r canlyniadau dymunol.

Roedd hawliau plant a phobl ifanc yn ganolog i ddatblygiad y Ddeddf, a bydd yn ganolog i'r Rhaglen Trawsnewid. Mae'r Ddeddf yn sicrhau bod llais plant a phobl ifanc yn ganolog i'r penderfyniadau a wneir ynglŷn â'u ADY. Mae'r Ddeddf yn golygu bod barn, dymuniadau a theimladau plant a phobl ifanc yn cael eu hystyried gan fynnu eu bod yn cael eu galluogi i gyfranogi ar sail gwybodaeth, er enghraifft, wrth baratoi cynllun datblygiad unigolyn ac wrth ei adolygu. Mae'r Ddeddf hefyd yn gosod dyletswyddau ar awdurdodau lleol, Byrddau Iechyd Lleol ac ymddiriedolaethau'r GIG i roi sylw dyledus i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn wrth weithredu eu swyddogaethau o dan y Ddeddf.

***Cynnig deddfwriaethol i ddileu amddiffyniad cosb resymol***

Mae Llywodraeth Cymru yn ymgynghori ar hyn o bryd[20] ar gynnig deddfwriaethol i ddileu'r amddiffyniad hwn. Prif nod y ddeddfwriaeth arfaethedig hon yw diogelu hawliau plant trwy wahardd y defnydd o gosb gorfforol, trwy ddileu'r amddiffyniad hwn. Byddai hyn yn cael gwared ar yr anomaledd presennol lle mae gan blant lai o amddiffyniad o ran cosb gorfforol nag oedolion.

Daw'r ymgynghoriad i ben ar 2 Ebrill 2018. Mae fersiwn o ymgynghoriad ar gyfer plant a phobl ifanc hefyd ar gael[21].

[20] Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar Gynnig i Ddileu Amddiffyniad Cosb Resymol: https://beta.llyw.cymru/cynnig-deddfwriaethol-i-ddileu-amddiffyniad-cosb-resymol
[21] https://beta.llyw.cymru/sites/default/files/consultations/2018-02/180109-legislation-young-persons-cy.pdf

## 3. Grymuso Plant

Mae hyn yn ymwneud â hybu galluoedd plant fel unigolion fel y byddant mewn sefyllfa well i fanteisio ar eu hawliau, ac i ymgysylltu, dylanwadu a dwyn yr unigolion a'r sefydliadau hynny sy'n effeithio ar eu bywydau i gyfrif. Mae'n cynnwys rhoi gwybodaeth i blant i wella eu dealltwriaeth o hawliau dynol, a'u galluogi i wneud dewisiadau ac i effeithio ar ganlyniadau iddynt hwy eu hunain a'u teuluoedd.

Rhoddir rhai enghreifftiau isod o raglenni neu bolisïau mae Llywodraeth Cymru wedi eu cyflwyno i rymuso plant a phobl ifanc:

***Y rhaglen Eco-Sgolion***

Mae'r rhaglen hon yn cael ei hariannu gan Is-adran Datblygu Gwledig Llywodraeth Cymru, ac mae'n cael ei rhedeg gan Cadwch Gymru'n Daclus.

Mae Eco-Sgolion yn rhaglen ryngwladol wirfoddol sy'n cynnwys 95% o ysgolion a dros 430,000 o ddisgyblion. Mae ysgolion yn cychwyn ar y lefelau Efydd ac Arian ac mae 800 o ysgolion wedi cyflawni Gwobr y Faner Werdd. Mae'r rhaglen yn un sy'n cael eu harwain gan ddisgyblion ac mae'n cynnwys plant a phobl ifanc ar bob lefel cyrhaeddiad mewn prosiectau ymarferol ar wyth pwnc (ynni, dŵr, trafnidiaeth, bioamrywiaeth, dinasyddiaeth fyd-eang, byw'n iach, lleihau gwastraff a sbwriel). Rhoddir cryn bwyslais ar ddeddfwriaeth Hawliau'r Plentyn fel y gwelir yn yr astudiaethau achos isod a gynhaliwyd gan Eco-Ysgolion.

Ysgol Gynradd y Garth, Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
Prosiect Dinasyddiaeth Fyd-eang i ddangos i'r plant ym mlwyddyn chwech y gwahaniaethau rhwng eu bywydau hwy a bywydau plant eraill, yn enwedig y caledi mae plant eraill yn ei brofi. Roedd y prosiect yn atgoffa disgyblion blwyddyn chwech o'r addewid a wnaethpwyd gan arweinyddion y byd i roi addysg i bob plentyn. Gwnaeth y plant bypedau / modelau o'r hyn sy'n gwneud arweinydd byd da a chawsant eu danfon i swyddfa AS lleol, a gyflwynodd hwy wedyn yn bersonol i Stryd Downing, i atgoffa ein harweinyddion o'r addewid a wnaethpwyd ganddynt. Fel canlyniad, dechreuodd y disgyblion, a oedd weithiau braidd yn negyddol am eu hysgol, sylweddoli pa mor ffodus oeddent i gael addysg ac fel yr oeddent yn cymryd ysgol yn ganiataol. Dangoswyd empathi ganddynt â'r plant a oedd yn siarad yn y DVDs ac yn y lluniau ar y posteri. Rhoddodd y prosiect ddarlun mwy cyflawn o'r byd i'r plant.

Mae'r Maniffesto dros Newid – Llais y Disgybl (yn cynnwys Pen-y-bont ar Ogwr/Castell-nedd Port Talbot/Abertawe) yn gyfle i ddisgyblion i fynegi'r hyn sydd ar eu meddwl ynglŷn â pham maent eisiau ymuno â'r Eco-Bwyllgor ac i egluro pam y dylai eu cyd-ddisgyblion bleidleisio iddynt. Mae'r prosiect yn annog y disgyblion (ar bob lefel) i drefnu eu syniadau ynglŷn â pham yr hoffent gynrychioli'r ysgol ar yr Eco-Bwyllgor. Cynhyrchodd y disgyblion faniffesto a rhannwyd ei gynnwys â'u cyd-ddisgyblion mewn areithiau, neu mewn posteri. Defnyddiwyd gwasanaethau ysgol gyfan gyda rhieni'n cael eu gwahodd er mwyn rhannu'r neges â'r gymuned ehangach. Canlyniad ychwanegol yw bod y disgyblion yn cael eu cyflwyno i'r broses ddemocrataidd, sy'n cynyddu eu dealltwriaeth a'u cyfranogiad.

***Animeiddiadau ar ddeddfwriaeth a meysydd pwnc Llywodraeth Cymru***

Mae Llywodraeth Cymru wedi datblygu animeiddiadau ar gyfer cynulleidfa o unrhyw oedran, sy'n gynnwys plant a phobl ifanc ar y Deddfau a'r pynciau canlynol:

- Y Cwricwlwm Ysgol Newydd sy'n cael ei ddatblygu ar gyfer pob sefydliad ac ysgol: http://gov.wales/topics/educationandskills/schoolshome/curriculuminwales/curriculum-for-wales-curriculum-for-life/?lang=cy
- Rheoli Adnoddau Naturiol http://gov.wales/topics/environmentcountryside/consmanagement/natural-resources-management/find-out-more/natural-resources-management-in-wales-video/?lang=cy
- Deddf yr Amgylchedd (Cymru) http://gov.wales/topics/environmentcountryside/consmanagement/natural-resources-management/environment-act/environment-wales-act-video/?skip=1&lang=cy
- Deddf Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 http://gov.wales/topics/people-and-communities/people/future-generations-act/?lang=cy
- Fframwaith Datblygu Cenedlaethol http://gov.wales/topics/planning/national-development-framework-for-wales/?lang=cy

***Fersiynau plant a phobl ifanc o gyhoeddiadau Llywodraeth Cymru***

Mae nifer o enghreifftiau o fersiynau plant a phobl ifanc, gan gynnwys:

Mae fersiwn plant a phobl ifanc o'r Papur Gwyn Diogelu Dyfodol Cymru ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru yn: https://beta.gov.wales/sites/default/files/2017-04/170424-securing-wales-future-yf-cy.pdf
Mae fersiwn plant a phobl ifanc o'r ymgynghoriad ar gynigion deddfwriaethol i ddileu'r amddiffyniad cosb resymol wedi cael ei chyhoeddi ochr yn ochr â'r brif ddogfen ymgynghori yn: https://beta.llyw.cymru/sites/default/files/consultations/2018-02/180109-legislation-young-persons-cy.pdf

## 4. Cyfranogiad

Mae hyn yn golygu gwrando ar blant a phobl ifanc a cymryd sylw o ddifri o'u barn. Mae'n cynnwys eu helpu i fynegi eu barn yn glir ac i gymryd yr hyn sydd ganddynt i'w ddweud o ddifri pan fydd penderfyniadau'n cael eu gwneud neu gamau'n cael eu cymryd sy'n effeithio ar eu bywydau, naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol.

Mae Llywodraeth Cymru am i bob plentyn a pherson ifanc gael cyfleoedd i gymryd rhan mewn prosesau penderfynu ar lefelau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol yng Nghymru. Mae cyfleoedd yn cael eu creu ar hyn o bryd trwy gyfryngau fel cynghorau ysgol, fforymau ieuenctid a Chymru Ifanc.

### Cymru Ifanc

Mae Llywodraeth Cymru yn darparu cyllid i brosiect Cymru Ifanc, sy'n cael ei hwyluso gan Blant yng Nghymru, mudiad ymbarél ar gyfer mudiadau plant. Mae Cymru Ifanc yn gweithio â grwpiau ieuenctid, fforymau a chynghorau presennol i gasglu barn plant a phobl ifanc i ddylanwadu ar ddeddfwriaeth, polisïau a rhaglenni. Mae hefyd yn defnyddio cyfryngau cymdeithasol i ymestyn allan at blant a phobl ifanc sydd wedi'u hynysu'n gymdeithasol, sy'n swil, o dan anfantais, yn ddihyder, neu'n unig, i'w galluogi hwythau hefyd i gael llais.

### Y Cyd-destun Cenedlaethol

O dan Adran 12 o Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010, mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi canllaw statudol i Awdurdodau Lleol i hyrwyddo a hwyluso cyfranogiad plant a phobl ifanc mewn penderfyniadau a all effeithio arnynt. Yn 2015 cafodd y canllaw statudol hwn ei ddiweddaru i ystyried Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae'r Ddeddf yn gosod cyfranogiad pobl a chymunedau wrth galon gwella llesiant, yn ogystal â bod yn un o'r pum ffordd o weithio a ddisgrifir yn y Ddeddf.

Mae Llywodraeth Cymru yn eglur mai'r disgwyliad yw y bydd y canllaw statudol yn cael ei weithredu ar draws Cymru ac y bydd cyfranogiad plant a phobl ifanc mewn prosesau penderfynu'n cael ei sefydlu yn y brif ffrwd. Er 2014 mae swyddogion Llywodraeth Cymru wedi ymweld â phob Awdurdod Lleol yn Rheolaidd i gael 'darlun o gyfranogiad' trwy ddeall sut mae'r ddyletswydd hon yn cael ei chyflawni'n lleol. Mae'r ymweliadau hyn wedi bod yn sail i'r Canllawiau Ymarfer da ar gyfer Cyfranogiad Plant a Phobl Ifanc yng Nghymru, ac mae'n cyflwyno enghreifftiau o ymarfer da a welwyd mewn Awdurdodau Lleol.

### Safonau Cyfranogiad Cenedlaethol Plant a Phobl Ifanc

Mae'r Safonau Cyfranogiad wedi cael eu hadolygu a'u diweddaru gan bartneriaeth o weithwyr y Fforwm Ieuenctid a Chymru Ifanc, ac mae'n seiliedig ar ymgynghoriadau â phobl ifanc. Yn ystod 2017, bu'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen Cenedlaethol yn gweithio i ddatblygu nod barcud newydd a phroses hunanasesu a nod Siartr newydd.

Cyfarfu'r gweithgor hwn ym mis Hydref i gadarnhau'r gwaith gan alluogi ail-lansio'r Safonau wedi'u diweddaru, y nod Barcud a'r Siarter ar 20 Tachwedd[22] – Diwrnod Byd-eang y Plant y Cenhedloedd Unedig. Mae'r Safonau'n nodi'r prif faterion y dylai gweithwyr fod yn ymwybodol ohonynt wrth weithio â phlant a phobl ifanc yng Nghymru. Cafodd yr holl waith ei hwyluso gan gyllid grant gan Lywodraeth Cymru. Mae'r Safonau hefyd yn cael eu hategu gan Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP), a Deddf Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, sy'n mynnu bod cynnwys plant yn ganolog i wella llesiant.

Mae cyfranogiad yn rhan bwysig o ddatblygiad polisïau a rhaglenni Llywodraeth Cymru, fel y gallwn ddarganfod beth mae plant yn ei feddwl a rhoi ystyriaeth o ddifri i hynny pan fyddwn yn gwneud penderfyniadau. Mae'r canlynol yn rhai enghreifftiau o sut yr ydym wedi annog cyfranogiad ac wedi ymgysylltu â phlant a phobl ifanc.

***CAFCASS Cymru***

Yn dilyn arolygiad o Cafcass Cymru gan AGGCC ym mis Tachwedd 2013, argymhellwyd y dylai Cafcass Cymru 'ddatblygu a gweithredu strategaeth cyfranogiad plant'. Cafodd y cynllun cyfranogiad 'Dy Lais' ei gynhyrchu gan Cafcass Cymru, yn dilyn cyfnod o ymchwil, ymgysylltu ac ymgynghori. Mae'r cynllun yn cynnwys rhaglen dair blynedd o brosiectau er budd y plant a'r bobl ifanc mae Cafcass Cymru yn gweithio â hwy. Hyd yma, mae 'Dy Lais', wedi hwyluso: arolygon o swyddfeydd Cafcass Cymru sy'n cael eu harwain gan bobl ifanc, ail-frandio Cafcass Cymru, rhaglen dreigl o sesiynau cynefino a hyfforddiant i staff sy'n cael eu cyflwyno gan bobl ifanc a ffyrdd newydd i bobl ifanc i gyfathrebu â'r barnwyr a'r ynadon sy'n gysylltiedig â'u hachosion.

Mae gwefan Cafcass Cymru yn cynnwys adran bwrpasol ar gyfer plant a phobl ifanc, sy'n cynnwys gwybodaeth am CCUHP, fideos gwybodaeth sydd wedi'u creu gan bobl ifanc eu hunain ac adrannau cymorth a chefnogaeth ychwanegol[23].

***Y Fforwm Twf Gwyrdd Rhyngwladol***

Mae Gweinidogion Cymru yn gweithio â'r Grŵp Hinsawdd a fu'n croesawu'r fforwm Twf Gwyrdd Rhyngwladol (IGGF) i Gaerdydd ar 3 Mawrth 2016. Roedd yr IGGF yn galluogi trafodaethau ar ddyfodol economi Cymru. Roedd gan blant a phobl ifanc ran bwysig yn y trafodaethau hyn. Cafodd grŵp o bobl ifanc 16-18 oed o Goleg Dewi Sant, Caerdydd eu gwahodd trwy Strategaeth Entrepreneuriaeth Ieuenctid Llywodraeth Cymru. Roedd y siaradwyr a'r cynrychiolwyr yn dod o lywodraethau rhanbarthol o bob rhan o'r byd, cwmnïau a busnesau byd-eang a 'dylanwadwyr' twf gwyrdd o Gymru. Roedd y myfyrwyr yn falch o'r cyfle i gael cyfrannu trwy drafodaethau â Gweinidogion, arweinyddion busnes a dylanwadwyr eraill. Yn dilyn yr IGGF, ffurfiodd y myfyrwyr Gymdeithas Ewch yn Wyrdd i rannu negeseuon allweddol

[22] Datganiad Plant yng Nghymru i'r wasg 20 Tachwedd 2017 http://www.plantyngnghymru.org.uk/newyddion/archif-newyddion/lansior-safonau-cyfranogiad-cenedlaethol-wedi-eu-hadnewyddu-201117-c/

[23] http://cafcass.gov.wales/children_and_young_people/?lang=cy

o’r gynhadledd ac i ystyried sut y gallant annog eraill i ymddiddori yn yr agenda.

***Gweithdai cyllidebu***
Hwylusodd Cymru Ifanc ddau weithdy cyllidebu cyfranogol â phobl ifanc. Roedd y gweithdai hyn yn cael eu cynnal yn ystod y gwyliau hanner tymor ym mis Hydref 2017, un yn swyddfa Plant yng Nghymru yng Nghaerdydd a’r llall yn Swyddfeydd Llywodraeth Cymru yn Llandudno.  Roedd y ddau weithdy’n cael eu harwain gan swyddogion Trysorlys Llywodraeth Cymru ac yn cael eu cyflwyno gan ddefnyddio technoleg ryngweithiol. Roedd 15 o gyfranogwyr, gan gynnwys 12 o bobl ifanc yn bresennol yn y digwyddiad yn y Gogledd. Daeth y cyfranogwyr o Fforwm Ieuenctid Conwy, Llais Ni Ynys Môn, Digartref Ynys Môn (prosiect digartrefedd) a Fforwm Ieuenctid Sir Ddinbych, Roedd 12 o gyfranogwyr, gan gynnwys wyth o bobl ifanc yn bresennol yn y digwyddiad yn y De, gyda’r cyfranogwyr yn dod o wasanaeth Barnardo’s yn Abertawe, a fforymau ieuenctid Bro Morgannwg a Rhondda Cynon Taf. Hefyd rhoddwyd cyfle i weithwyr cyfranogiad ieuenctid i ymuno â’r trafodaethau ar y ddau ddigwyddiad. Cynhyrchwyd taflen grynhoi o bob gweithdy ac a anfonwyd at y cyfranogwyr gan Drysorlys Cymru.

***Treialu asesiadau ar-lein ar gyfer y Consortiwm Profion Cenedlaethol***
Bu’r Consortiwm Profion Cenedlaethol, o dan arweiniad AplhaPlus Consultancy, yn chwilio am ysgolion i gymryd rhan mewn treialon anffurfiol a ‘chyn profi’ profion ymaddasol ar-lein ar gyfer profion darllen a rhifedd cenedlaethol. Mae profion ymaddasol ar-lein yn cael eu cyflwyno i gymryd lle’r profion papur presennol. Bydd modd addasu pa mor anodd yw’r cwestiynau fel eu bod yn addas i’r sawl sy’n sefyll y prawf. Roedd Consortia Rhanbarthol yn eu hannog ysgolion i fod yn rhan o’r broses hon.

Ar hyn o bryd, mae’r Consortiwm Profion Cenedlaethol yn gweithio â thua 150 o ysgolion ledled Cymru, gyda chynrychiolaeth o bob un o’r rhanbarthau. Roedd y gwaith yn cael ei arwain ac roedd yn seiliedig ar waith grŵp cynghori o arbenigwyr byd enwog mewn dylunio a dadansoddi e-asesiadau. Mae treialu’r asesiadau ar-lein newydd mewn ysgolion a chasglu adborth ar adroddiadau asesu gan blant a phobl ifanc trwy grwpiau ffocws a dulliau eraill yn hanfodol i lwyddiant y rhaglen, ac mae ysgolion yn cael eu hannog i gymryd rhan.

## 5. Atebolrwydd

Mae hyn yn golygu bod awdurdodau'n fwy atebol i blant am benderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywydau. Mae'n cynnwys rhoi gwybodaeth i blant a phobl ifanc a rhoi gweithdrefnau iddynt sy'n eu galluogi i gwestiynu a herio penderfynu, ac mae'n golygu bod awdurdodau'n dryloyw ac yn rhoi rhesymau am y penderfyniadau maent yn eu gwneud a'r camau maent yn eu cymryd.

Yn ein barn ni, mae cysylltiad agos rhwng egwyddorion grymuso a chyfranogi. Mae rhai o'r enghreifftiau a roddwyd gennym o weithgarwch Llywodraeth Cymru sy'n gysylltiedig â'r egwyddorion hyn hefyd yn dangos atebolrwydd: er enghraifft, y gweithdai cyllidebu â swyddogion Trysorlys Cymru a hwyluswyd gan Gymru Ifanc; a'r arolygiadau o swyddfeydd CAFCASS Cymru o dan arweiniad pobl ifanc.

Mae tryloywder a bod yn agored ynglŷn â'r rhesymau am benderfyniadau a wneir yn ystyriaeth allweddol i Lywodraeth Cymru wrth lunio ei holl bolisïau. Rydym am i bawb sy'n byw yng Nghymru, gan gynnwys plant a phobl ifanc, gael gwybodaeth am yr hyn rydym yn ei wneud. O ran plant a phobl ifanc yn benodol, byddwn yn ystyried a allwn ni gryfhau egwyddorion grymuso, cyfranogiad ac atebolrwydd trwy'r broses CRIA.

## Y Camau nesaf

Ar ôl adolygu'r hyn rydym yn ei wneud i gyflawni ein hymrwymiad i hawliau plant, rydym wedi penderfynu ar y camau nesaf:

- Ystyried ac ymgynghori ar ddiwygiadau i'r Cynllun Hawliau Plant, a chynnig Cynllun diwygiedig a gyflwynir i gael cymeradwyaeth y Cynulliad.

- Bwrw ymlaen â gwaith i ymgorffori'r CRIA mewn asesiad effaith integredig, gan roi ystyriaeth fanwl i'r argymhelliad o werthusiad 2015 o Criau a brîff 2017 Unicef fel rhan o'r broses hon.

- Ystyried a oes angen darparu rhagor o gyllid ar gyfer hyfforddiant penodol i'r sector ar hawliau plant, pan ddaw'r contract presennol i ddarparu'r hyfforddiant hwn i ben.

- Ymwybyddiaeth o hawliau plant: ystyried canfyddiadau Arolwg Omnibws Plant Beaufort, a'r hyn a ddywed wrthym am ein strategaeth i godi ymwybyddiaeth o hawliau plant yn y dyfodol; sut y gallwn weithio ag eraill i gynyddu ymwybyddiaeth, ac a oes angen rhagor o ymchwil i ddeall y berthynas rhwng ymwybyddiaeth o hawliau plant a gwella canlyniadau i blant a phobl ifanc.

- Cyfranogiad: adolygu ein strategaeth i gefnogi a thynnu sylw at bwysigrwydd cyfranogiad plant a phobl ifanc mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnynt.

## Atodiad 1: Tueddiadau o’r Dadansoddiadau yn Arolwg Omnibws Plant Beaufort 2017

### Ymwybyddiaeth o Hawliau Plant

- Mae Tabl 6 yn dangos, yn 2017, mai plant a phobl ifanc yng Nghanolbarth / Gorllewin Cymru (70%) a Gorllewin De Cymru (67%) oedd â mwyaf o ymwybyddiaeth o hawliau plant
- Yn 2017, roedd gan blant a phobl ifanc o gefndiroedd ABC1 (64%) lefel uwch o ymwybyddiaeth o hawliau plant na rhai o gefndiroedd C2DE (54%)
- Mae data 2017 hefyd yn dangos bod gan fenywod (62%) ymwybyddiaeth fymryn yn uwch o hawliau plant na gwrywod (55%)
- Rhai 11-15 oed (71%) oedd yn dangos y lefel uchaf o ymwybyddiaeth o hawliau plant, gyda dim ond 41% o rai 7-10 oed oedd yn ymwybodol.

### Ymwybyddiaeth o CCUHP

- Mae Tabl 7 yn dangos, yn 2017, mai plant a phobl ifanc yng Nghanolbarth / Gorllewin Cymru oedd â mwyaf o ymwybyddiaeth o CCUHP, y Cymoedd oedd â lleiaf o ymwybyddiaeth (7%) ac yna Gogledd Cymru (10%)
- Roedd benywod (24%) yn dangos ymwybyddiaeth fymryn yn uwch o CCUHP na gwrywod (20%)
- Roedd gan blant a phobl ifanc o gefndiroedd ABC1 (25%) ychydig mwy o ymwybyddiaeth o CCUHP na rhai o gefndiroedd C2DE (20%)
- Roedd pobl ifanc 16-18 oed yn dangos ychydig mwy o ymwybyddiaeth (29%) o CCUHP na phlant 7-10 oed (15%).

**Tabl 6: Ymwybyddiaeth plant a phobl ifanc o hawliau plant**

| | | Rhanbarth | | | | | Rhyw | | Dosbarth Cymdeithasol | | Oed | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Cyfanswm** | Gogledd Cymru | Canolbarth Gorllewin Cymru | Gorllewin De Cymru | Y Cymoedd | Caerdydd a De Dd. Cymru | Gwryw | Benyw | ABC1 | C2DE | 7-10 | 11-15 | 16-18 |
| Oes | **58%** | 54% | 70% | 67% | 48% | 56% | 55% | 62% | 64% | 54% | 41% | 71% | 58% |
| Nac oes | **40%** | 46% | 30% | 31% | 51% | 42% | 44% | 37% | 36% | 44% | 58% | 29% | 39% |
| Ddim yn gwybod | **1%** | - | - | 3% | 2% | 2% | 1% | 1% | 1% | 2% | 1% | 1% | 3% |

Gwaelodlin: 530 o ymatebwyr

Ffynhonnell: Arolwg Omnibws Plant Beaufort 2017, cwestiwn ‘A wyddoch chi fod gan blant hyd at 18 oed hawliau penodol, yn ychwanegol at y rhai sydd gan oedolion? Wrth sôn am hawliau, rydym yn golygu cael eich trin yn deg, gyda pharch a’r cyfle i gyflawni’r hyn rydych am ei gyflawni’

**Tabl 7: Ymwybyddiaeth plant a phobl ifanc o CCUHP a ble maent wedi canfod gwybodaeth am CCUHP**

| | | **Rhanbarth** | | | | | **Rhyw** | | **Dosbarth Cymdeithasol** | | **Oedran** | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Cyfanswm** | Gogledd Cymru | Canolbarth / Gorllewin Cymru | Gorllewin De Cymru | Y Cymoedd | Caerdydd a De Dd. Cymru | Gwryw | Benyw | ABC1 | C2DE | 7-10 | 11-15 | 16-18 |
| Yn yr ysgol/prifysgol | **20%** | 10% | 40% | 32% | 7% | 185 | 19% | 21% | 23% | 18% | 13% | 22% | 26% |
| Ar y rhyngrwyd | **2%** | 2% | 5% | 5% | - | 2% | 2% | 3% | 3% | 2% | 1% | 2% | 4% |
| Trwy ddarllen taflen | **1%** | 1% | 2% | 4% | - | 1% | 0% | 2% | 2% | 1% | - | 1% | 3% |
| Gartref | **1%** | - | - | 1% | - | 1% | 0% | 1% | 0% | 1% | 1% | 0% | 1% |
| WEDI CLYWED AM CCUHP | **22%** | 10% | 44% | 34% | 7% | 21% | 20% | 24% | 25% | 20% | 15% | 23% | 29% |
| Naddo – erioed wedi clywed am CCUHP cyn heddiw | **77%** | 89% | 56% | 63% | 90% | 79% | 79% | 74% | 75% | 78% | 84% | 76% | 70% |
| Ddim yn | **1%** | 1% | - | 3% | 2% | 0% | 1% | 2% | - | 2% | 2% | 1% | 1% |

gwybod

Gwaelodlin: 530 o ymatebwyr

Ffynhonnell: Arolwg Omnibws Plant Beaufort 2017, cwestiwn ‘‘Mae gan y Cenhedloedd Unedig restr o’r holl hawliau sydd gan blant a phobl ifanc. Gelwir y rhestr yn CCUHP. A ydych chi wedi ei gweld yn unrhyw un o’r mannau canlynol?

**Teimlo bod oedolion yn gwrando pan fydd penderfyniadau pwysig yn cael eu gwneud**

- Yn Nhabl 8, dywed 79% o blant a phobl ifanc yng Nghaerdydd a De Ddwyrain Cymru eu bod yn teimlo bod oedolion yn gwrando arnynt cyn gwneud penderfyniadau pwysig sy'n effeithio arnynt, ac mae 74% o blant a phobl ifanc yn y Canolbarth / Gorllewin Cymru yn teimlo hynny. Ar y llaw arall, 64% o blant a phobl ifanc yng Ngorllewin De Cymru oedd yn teimlo bod oedolion yn gwrando arnynt yn yr un amgylchiadau
- Mae pobl ifanc 16-18 oed (48%) yn llai tebygol o ddweud eu bod yn teimlo bod oedolion yn gwrando arnynt, gyda phlant 7-10 oed yn llawer mwy tebygol o ddweud eu bod yn teimlo bod eu llais yn cael ei glywed (82%).

**Â phwy mae plant y phobl ifanc yn ddweud y byddent yn siarad â hwy os oeddent yn teimlo nad oedd oedolion yn gwrando arnynt**

- Mae Tabl 9 yn dangos rhai gwahaniaethau rhanbarthol diddorol yn y canrannau o blant a phobl ifanc sy'n dweud y byddent yn siarad â'u rhieni os oeddent yn teimlo nad oedd oedolion yn gwrando arnynt.
- Plant yn y Canolbarth / Gorllewin Cymru oedd fwyaf tebygol o ddweud y byddai'n well ganddynt siarad â'u rhieni (97%), a rhai yng Ngogledd Cymru oedd y lleiaf tebygol o siarad â'u rhieni (47%), ac yna rhai yng Nghaerdydd (50%) a'r Cymoedd (51%)
- Plant 11-15 oed oedd fwyaf tebygol o ddweud y byddent yn siarad â'u rhieni (67%), gyda dim ond 52% o rai 16-18 oed yn dweud y byddent yn siarad â'u rhieni
- Dywedodd ychydig yn fwy o fenywod y byddent yn siarad â'u rhieni (63%) na gwrywod (58%).

| **Tabl 8: I ba raddau mae plant a phobl ifanc yn cytuno â'r datganiad: Mae oedolion fel arfer yn gwrando ar farn plant a phobl ifanc cyn gwneud penderfyniadau sy'n effeithio arnynt** | | **Rhanbarth** | | | | | **Rhyw** | | **Dosbarth Cymdeithasol** | | **Oedran** | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Cyfanswm** | Gogledd Cymru | Canolbarth / Gorllewin Cymru | Gorllewin De Cymru | Y Cymoedd | Caerdydd a De Dd. Cymru | Gwryw | Benyw | ABC1 | C2DE | 7-10 | 11-15 | 16-18 |
| Cytuno llawer | **32%** | 24% | 56% | 25% | 23% | 36% | 32% | 32% | 35% | 30% | 45% | 32% | 19% |
| Cytuno | **39%** | 45% | 19% | 39% | 45% | 42% | 37% | 42% | 36% | 42% | 37% | 48 | 29 |

| | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| ychydig | | | | | | | | | | | | % | % |
| Anghytuno ychydig | **17%** | 24% | 18% | 19% | 17% | 9% | 19% | 14% | 18% | 15% | 9% | 12% | 32% |
| Anghytuno llawer | **7%** | 3% | 5% | 12% | 12% | 6% | 7% | 8% | 6% | 8% | 4% | 5% | 15% |
| Ddim yn gwybod | **5%** | 5% | 3% | 5% | 2% | 6% | 5% | 4% | 4% | 5% | 5% | 4% | 5% |
| CYTUNO | **71%** | 69% | 74% | 64% | 69% | 79% | 69% | 74% | 72% | 71% | 82% | 80% | 48% |
| ANGHYTUNO | **24%** | 26% | 23% | 31% | 29% | 15% | 26% | 22% | 24% | 24% | 13% | 17% | 47% |

Gwaelodlin: 530 o ymatebwyr

Ffynhonnell: Arolwg Omnibws Plant Beaufort 2017, cwestiwn ‘I ba raddau ydych chi’n cytuno â’r datganiad: mae oedolion fel arfer yn gwrando ar farn plant a phobl ifanc cyn gwneud penderfyniadau sy’n effeithio arnynt?’

**Tabl 9: Â phwy mae plant a phobl ifanc yn ddweud y byddent yn siarad â hwy os oeddent yn teimlo nad oedd oedolion yn gwrando ar eu barn cyn gwneud penderfyniadau pwysig sy’n effeithio arnynt**

| | | **Rhanbarth** | | | | | **Rhyw** | | **Dosbarth Cymdeithasol** | | **Oedran** | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Cyfanswm** | Gogledd Cymru | Canolbarth / Gorllewin Cymru | Gorllewin De Cymru | Y Cymoedd | Caerdydd a De Dd. Cymru | Gwryw | Benyw | ABC1 | C2DE | 7-10 | 11-15 | 16-18 |
| Rhieni | **60%** | 47% | 97% | 71% | 51% | 50% | 58% | 63% | 60% | 61% | 59% | 67% | 52% |
| Ffrindiau (gan gynnwys cariadon) | **22%** | 35% | - | 13% | 25% | 26% | 26% | 17% | 25% | 19% | 17% | 22% | 27% |
| Athro/cyngor ysgol | **15%** | 15% | 5% | 17% | 21% | 18% | 12% | 19% | 13% | 17% | 15% | 18% | 12% |
| Perthnasau eraill | **7%** | 12% | - | 4% | 7% | 8% | 7% | 6% | 7% | 6% | 9% | 8% | 2% |
| Nain/taid | **3%** | 1% | - | - | 10% | 5% | 2% | 4% | 3% | 3% | 5% | 2% | 4% |
| Childline | **1%** | 1% | - | 2% | - | 2% | 1% | 1% | 1% | 1% | 0% | 2% | - |
| Gweithiwr ieuenctid | **1%** | - | - | 2% | - | 1% | 0% | 1% | 1% | 1% | - | 1% | 2% |
| Cwnselydd/gweithiwr cymdeithasol | **1%** | 1% | - | 1% | - | 2% | 1% | 1% | 1% | 1% | 0% | 0% | 2% |
| Meic Cymru | **0%** | - | - | 1% | - | - | 0% | - | 0% | - | - | 0% | - |

| | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Arall | **1%** | 3% | - | 1% | 3% | - | 1% | 2% | 1% | 1% | 2% | 0% | 2% |
| Ddim yn gwybod | **4%** | 6% | - | 5% | 6% | 3% | 5% | 3% | 4% | 4% | 5% | 3% | 5% |

Gwaelodlin: 530 o ymatebwyr

Ffynhonnell: Arolwg Omnibws Plant Beaufort 2017, cwestiwn ‘â phwy fyddwch chi’n siarad os byddai angen i chi siarad ag oedolyn am rywbeth oedd yn bwysig i chi?